WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU | WELSH CHARITIES WEEK

Noddir gan:

utility aid

Pecyn Syniadau i Elusennau

GWNA DY RAN A NEWID BYWYDAU

Bydd Wythnos Elusennau Cymru yn cael ei chynnal rhwng 9 - 13 Chwefror 2026 yn ei chartref newydd, yr ail wythnos o fis Chwefror. Nod yr wythnos yw cydnabod ac amlygu gwaith gwych elusennau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ledled Cymru.

Diolch am ein helpu ni i ddathlu #WythnosElusennauCymru. Yn y pecyn syniadau hwn fe welwch chi awgrymiadau amrywiol ar sut i danio eich creadigrwydd yn ystod yr wythnos. Dewch i ni weithio gyda'n gilydd i ddangos pa mor anhygoel yw ein sector drwy roi sylw i'r gwaith ysbrydoledig sy'n cael ei wneud 365 diwrnod y flwyddyn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Wythnos Elusennau Cymru yn: https://wythnoselusennau.cymru/.

CYMRYD RHAN

Rydym ni'n eich annog i ddefnyddio #WythnosElusennauCymru fel esgus i ddod â'ch staff a'ch gwirfoddolwyr ynghyd i ddathlu eich elusen neu grŵp gwirfoddol.

Trefnwyd gan:

WCVA CGGC

Noddir gan:

utility aid

DYMA RAI SYNIADAU...

Trefnwch fore coffi a chacen i staff a gwirfoddolwyr ddod ynghyd i ddathlu'r gwahaniaeth gwych rydych chi'n ei wneud a llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf. Beth am ddefnyddio'r poster Wythnos Elusennau Cymru sydd ar gael isod i'w arddangos yn ystod y digwyddiad.

Gwahoddwch eich cefnogwyr neu'r gymuned leol i ddod i glywed am eich gwaith a'i effaith. Gallech drafod beth sy'n eich gwneud chi'n falch o fod yn rhan o'r mudiad hwn a'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni'r flwyddyn hon. Cofiwch ddefnyddio'r poster Wythnos Elusennau Cymru sydd ar gael isod yn ystod y digwyddiad!

Cynhaliwch noson cyfnewid dillad. Beth am drefnu sesiwn cyfnewid dillad o fewn eich cymuned lle gall pobl ddod â dillad nad ydynt yn eu gwisgo mwyach a'u cyfnewid am rywbeth arall sydd wedi'i roi? Gallech godi tâl mynediad bychan (£1 - £2). Cyfrannwch at amgylchedd mwy cynaliadwy a chodi arian i'ch elusen ar yr un pryd.

OS OES WELL GENNYCH CHI GYFRY-NGAU CYMDEITHASOL, BETH AM ...

Ddweud diolch i'ch staff a gwirfoddolwyr - dylem fod yn diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr drwy gydol y flwyddyn, ond gan fod yr wythnos hon yn ymwneud â dathlu elusennau ledled Cymru, beth am ddweud wrth y byd am aelod staff, gwirfoddolwr neu dîm a'r gwahaniaeth y maen nhw'n ei wneud drwy bostio ar gyfryngau cymdeithasol? Gallwch ddefnyddio ein cardiau dyfyniadau isod i amlygu eich staff a'ch gwirfoddolwyr anhygoel?

Mynd ati i greu fideo am y gwaith rydych chi a'ch elusen yn ei wneud. Rydym ni wedi creu canllaw syml ar sut i greu eich fideo.

Rhoi sylw i elusen arall rydych chi'n ei hedmygu – mae cymaint o elusennau anhygoel ledled Cymru, beth am roi sylw i un y gallech fod wedi gweithio mewn partneriaeth â hi neu un rydych chi'n ei hedmygu?

Gwnewch ddiwrnod 'cymryd drosodd' i'r staff – gofynnwch i un o'ch gwirfoddolwyr neu aelod staff ffilmio fideo ar ffurf 'diwrnod mewn bywyd', yn amlygu ei weithgareddau bob dydd a'r hyn y mae'n ei hoffi fwyaf am yr elusen.

Byddem wrth ein bodd pe baech yn cymryd rhan eleni!

Byddem ni wrth ein boddau pe baech chi'n cymryd rhan eleni! Anogwn ni chi i ddefnyddio #WythnosElusennauCymru fel esgus i ddod â'ch staff a'ch gwirfoddolwyr ynghyd i ddathlu eich elusen neu grŵp gwirfoddol. Mae'r poster a'r cardiau dyfyniadau ar gael isod.

Gydag unrhyw beth a rennir ar gyfryngau cymdeithasol, cofiwch ddefnyddio hashnod #WythnosElusennauCymru.

Diolch eto am gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru a gobeithio y cewch chi hwyl yn dathlu!

Lawrlwythiadau



Cefndir stori cyfryngau cymdeithasol



Poster



Cerdyn dyfyniad



Cefndir Zoom / Teams

Cefndir post sgwâr cyfryngau cymdeithasol